# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Swyddfa'r Cyngor**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal 22/11/2021

Annwyl Aelod,

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL – 25 TACHWEDD 2021**
**ATODIAD HWYR**

Atodaf atodiad hwyr yng nghyswllt yr eitem isod:-

**1. STRATEGAETH AWTISTIAETH** 2 - 9

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Yn gywir,

**Swyddog Cefnogi Aelodau**

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Cynllun Awtistiaeth |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Mae'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth yn gosod allan y cyfrifoldebau mewn perthynas â gweithgareddau gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol ynglŷn ag ystod ac ansawdd y gwasanaethau dylai bod ar gael yn eu hardal lleol i blant, pobl ifanc ac oedolion awtisitig a'u teuluoedd a/neu eu gofalwyr.<br>Mae'r Cod yn amlygu'r cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd i sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth am awtistiaeth yn cael ei gynnwys yn eu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol sy'n cael ei ddarparu i staff iechyd a gofal cymdeithasol. |

Mae rhan 3 o'r Cod yn amlygu pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth am awtistiaeth yn y gymuned. Mae angen dealltwriaeth o awtistiaeth ar draws y gymuned er mwyn cael cymdeithas sy'n sicrhau bod pobl awtistig yn cael eu cynnwys.
Pwrpas y cynllun yw gweithredu'r Cod Ymarfer ar lefel leol.

**1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

Aled Gibbard

**1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

Tachwedd 2021. Fersiwn 1.0. Mae hwn yn asesiad ar y cynllun yn ei gyfanrwydd. Bwriedir gwneud asesiadau effaith pellach wrth gynllunio i weithredu rhai elfennau ohono ac wrth adolygu.

## 2) Gweithredu

**2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Mae'r cynllun wedi ei ddatblygu yn dilyn mewnbwn a chyfarfodydd gyda budd-deiliaid proffesiynol, gan gynnwys y bwrdd iechyd a'r gwasanaeth awtistig rhanbarthol a chenedlaethol.

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Fel rhan o ddatblygu'r Cod Ymarfer cyn ei weithredu, bu ymgynghoriad ar lefel genedlaethol a oedd yn cynrychioli grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Mae'r ymgynghoriad uchod wedi amlygu rhai meysydd lle mae naill ai diffyg gwaith ymchwil neu wybodaeth gyfredol. Mae hynny wedi ei gydnabod ar lefel genedlaethol.

| |
|---|
| |

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

| |
|---|
| Gweithredir y cynllun yn seiliedig ar yr angen i ddatblygu gwell gwybodaeth leol e.e. amcangyfrir bod oddeutu 30,000 o bobl awtistig yng Nghymru (1 ym mhob 100), fodd bynnag nid oes gennym wybodaeth gyfredol am y nifer adnabyddus yng Ngwynedd, a beth mae hynny yn ei ddweud wrthym am y gynrychiolaeth o fewn y ffigwr hwn o safbwynt unrhyw un sydd â nodweddion gwarchodedig penodol. |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Mae yna fylchau yn y data sydd ar gael yn lleol, ac un o amcanion y cynllun yw ceisio sefydlu darlun mwy manwl am anghenion pobl awtistig o fewn y Sir. |

**3) Adnabod yr Effaith**

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Bydd y Cod yn cael effaith gadarnhaol ar bobl awtisitg o gymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig neu sy'n geiswyr lloches neu ffoaduriaid gan fod cymorth i bobl awtistig a'u rhieni/gofalwyr mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig wedi bod yn elfen allweddol o'r gwaith a wneir gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (a ariennir gan Lywodraeth Cymru). Er enghraifft: mae wedi bod yn rhoi gwybodaeth a chymorth penodol i gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn ei gylchlythyr ynglŷn â COVID-19. |
| **Anabledd** | Positif | Mae'r cod yn ystyried gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas ag addasiadau rhesymol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu nwyddau a chyfleusterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig er mwyn sicrhau nad ydynt o dan anfantais o gymharu â phobl heb |

| | | |
|---|---|---|
| | | awtistiaeth. Mae'n ofynnol i ddarparwyr wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig fesul achos. |
| **Rhyw** | Dynion – dim<br><br>Merched - Positif | Dynion:<br>Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall dynion fod hyd at bedair gwaith yn fwy tebygol o gael diagnosis o awtistiaeth o gymharu â merched a menywod. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio, ond gellir eu cysylltu ag astudiaethau sy'n dangos bod menywod yn fwy abl i guddio symptomau cyflyrau ymwybyddiaeth newidiedig (ASC) drwy ymddygiad dynwaredol ac ati. Mae pryder wedi'i leisio ynghylch effaith wahaniaethol awtistiaeth ymhlith merched ac mae clinigwyr yn ymwybodol iawn o hyn. Am y rheswm hwn, nid yw'n ddisgwyliedig y bydd y Cod yn cael unrhyw effaith wahaniaethol ar ddynion.<br><br>Merched a Menywod:<br>Yn hanesyddol, mae cyfradd diagnosis awtistiaeth ymhlith merched a menywod wedi bod yn llawer is nag ar gyfer bechgyn a dynion. Er mai prin yw'r ymchwil sydd wedi'i gwneud, mae tystiolaeth a thystiolaeth glinigol anecdotaidd yn awgrymu bod y gwahaniaeth hwn mewn cyfraddau diagnostig i'w briodoli i sawl ffactor. Mae'r rhain yn cynnwys y ffordd y mae merched a menywod yn ymgyflwyno, maent yn aml yn fwy abl i guddio ymddygiad drwy wylio pobl eraill o'u hamgylch a'u dynwared. Awgrymir hefyd fod adnoddau diagnostig safonol wedi'u teilwra'n fwy tuag at adnabod awtistiaeth glasurol a welir gan amlaf mewn bechgyn a dynion, tra bod merched a menywod yn gallu dangos awtistiaeth mewn ffordd fwy cynnil sy'n golygu ei bod yn anodd gwneud diagnosis ohono. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn deall sut y gall merched a menywod awtistig ymgyflwyno'n wahanol ac y gall fod ganddynt anghenion cymorth gwahanol. Er enghraifft, gall merched ymddangos yn fwy abl i gynnal cydberthnasau cymdeithasol ond, mewn gwirionedd, maent yn blino'n lân wrth geisio addasu eu hymddygiad eu hunain i ddynwared ymddygiad pobl eraill a'r hyn yr ystyrir ei fod yn fwy derbyniol. At hynny, mae cerrig milltir pwysig mewn bywyd lle y gallai fod angen mwy o gymorth unigol ar fenywod, megis yn ystod blaenaeddfedrwydd a beichiogrwydd. Disgwylir y bydd y Gwaith sy'n cael ei wneud yn lleol yn cael effaith gadarnhaol ar fenywod. |
| **Oedran** | Positif | Mae'r term 'pobl' yn y cod yn cyfeirio at blant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r Cod yn cydnabod pob unigolyn, waeth beth fo'i oedran. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Mae corff cynyddol o lenyddiaeth sy'n cysylltu awtistiaeth â hunaniaeth o ran rhywedd/dysfforia rhywedd, gyda chyfran |

| | | |
|---|---|---|
| | | uwch o bobl awtistig yn nodi eu bod yn uniaethu'n seicolegol â rhywedd sy'n wahanol i'r un a bennwyd iddynt pan gawsant eu geni. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen gwella gwasanaethau hunaniaeth o ran rhywedd ac wedi sefydlu Grŵp Partneriaeth Hunaniaeth o ran Rhywedd Cymru i roi cyngor. Mae Tîm Rhywedd Cymru wedi'i leoli yn Ysbyty Dewi Sant yng Nghaerdydd. Gellir defnyddio unrhyw wybodaeth o'r Gwasanaeth hwn i lywio unrhyw fersiynau dilynol o'r Cod. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai'r Cod yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar unigolion oherwydd eu crefydd, eu cred neu eu diffyg cred. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Prin yw'r dystiolaeth i ddangos sut y gall bod yn awtistig effeithio ar bobl drawsryweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn a bydd y Cod Ymarfer yn cael ei werthuso o fewn dwy flynedd a bydd yn mynd i'r afael â hyn yn eu cynllun cyflawni ar gyfer y Cod Ymarfer |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Mae Gweithgor Amenedigol Cenedlaethol wedi'i sefydlu a bydd yn rhoi sylw i themâu allweddol ac atebion a awgrymir mewn perthynas â merched awtistig a Gwasanaethau amenedigol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol hysbys o ran y categori priodas a Phartneriaeth Sifil. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Ni all rhai pobl awtistig siarad neu gallent fod â chyfyngderau ieithyddol tra bod gan rhai pobl awtistig sgiliau ieithyddol da iawn. Lle mai Cymraeg yw iaith gyntaf pobl awtistig, fe gynigir y gwasanaeth yn y iaith o'u dewis hwy. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Dim | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol hysbys ar grwpiau gwarchodedig na'r rhai sy'n byw mewn cartrefi incwm isel. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Nid yw'r cynllun yn camwahaniaethu rhwng gwahanol nodweddion. Bwriad y cynllun yw codi ymwybyddiaeth a darparu gwell gwasanaethau i bobl awtistig ac felly'n cyfarch ystod o wahanol anghenion, gan ystyried nodweddion eraill unigolion wrth wneud hynny. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Mae'r cynllun yn adnabod yr angen i helpu ystod eang o bobl sydd â gwahanol anghenion, ac i gynnig cefnogaeth yn ôl eu hangen. Mae hefyd yn cynnwys y cyfrifoldeb i asesu anghenion gofal a chefnogaeth grwpiau bregus, ac yn anelu i roi sylw perthnasol iddynt hwy. Mae'r gwaith sydd eisoes wedi ei wneud ar y Cod wedi adnabod yr angen i hyrwyddo cyfle cyfartal i ferched ac i ddarparu'n arbennig ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig ( gweler 3.1) |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Meithrin perthynas dda rhwng pobl awtistig a gweddill cymdeithas trwy godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Mae 65% o boblogaeth Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg ac mae'r Cyngor yn gweithredu Polisi Iaith sydd yn sicrhau "Bod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac y cymerir camau pendant i sicrhau bod dewis iaith y defnyddiwr yn cael ei nodi a'i barchu bob amser." Mae gallu gweithredu'r polisi hwn yn gyson ar draws y sir gyfan, a sicrhau bod unigolyn yn gallu cael gwasanaeth Cymraeg os ydynt yn dymuno hynny (yn unol â'r gofyn o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) yn golygu bod rhaid ystyried y Gymraeg wrth recriwtio ac wrth ddatblygu gwasanaethau. Dylid cofio bod unrhyw siaradwr Cymraeg sydd yn cael ei benodi i swydd o reidrwydd yn gallu darparu'r gwasanaeth hwnnw yn Saesneg hefyd. |

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

| |
|---|
| |

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Gall pobl awtistig gael eu hanfanteisio yn y farchnad gwaith. Mae'r Tim Awtistiaeth Cenedlaethol wedi creu gwybodaeth benodol i godi ymwybyddiaeth a gwella sgiliau cyflogwyr er mwyn cefnogi gweithwyr awtistig yn fwy effeithiol.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Mae angen sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn 3.5 yn adnabyddus i gyflogwyr lleol.

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Yn unol â Chod Ymarfer y Llywodraeth bydd y cynllun yn anelu i sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roi i anghenion pobl awtistig wrth ddarparu gwasanaethau a bod cyfleoedd teg yn cael eu rhoi i bawb. Yn lleol byddwn yn ystyried nodweddion eraill yr unigolyn wrth weithredu.

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Ni ddylai'r cynllun gael effaith negyddol ar unrhyw unigolion gyda nodweddion gwarchodedig.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | x |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effeithiau negyddol ond byddwn yn monitro (gweler isod) ac yn ymdrin hefo unrhyw effeithiau negyddol allai godi |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Bydd y cynllun yn cael ei fonitro trwy Bwrdd Awtistiaeth Lleol, ac mae'n ddisgwyliad o fewn y Cod Ymarfer yn ogystal i adolygu'r cynllun yn flynyddol. Rydym yn bwriadu cynnal asesiadau effaith pellach wrth adolygu'r cynllun er mwyn ystyried manylder yr effaith yn well. |